*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 3540 (Cy.287)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Etholiadau Lleol (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *29 Hydref 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *15 Tachwedd 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 87 a 106(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**):

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Etholiadau Lleol (Cymru) 2001 a daw i rym ar 15 Tachwedd 2001.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i gynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned yng Nghymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Deddf 1972" ("the 1972 Act") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**2**).

### Gohirio etholiadau cyffredin

**2.**—(1) Yn adran 26 o Ddeddf 1972 (ethol cynghorwyr prif gynghorau), yn lle "1995" ym mhob lle rhowch "2004".

(2) Yn adran 35 o Ddeddf 1972 (cynghorwyr cymuned), yn lle "1995" rhowch "2004".

(3) Mae tymor swydd y cynghorwyr presennol o dan adran 26(2) neu adran 35(2) yn cael ei estyn felly â blwyddyn.

(**1**) 2000 p. 22.
(**2**) 1972 p. 70.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*Jane E. Hutt*

29 Hydref 2001

Ysgrifennydd Cynulliad

(**3**) 1998 p. 38.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn.)*

O dan adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud darpariaeth sy'n newid ym mha flwyddyn y mae etholiadau cyffredin cynghorwyr unrhyw awdurdod lleol penodedig i gael eu cynnal (heb newid y cynllun sydd eisoes yn bodoli ar gyfer ethol y cynghorwyr hynny).

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer addasu adran 26(1) (Etholiadau Cynghorwyr) ac adran 35(2) (Cynghorwyr Cymuned) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn gohirio etholiadau cynghorwyr i bob cyngor sir, pob cyngor bwrdeistref sirol a phob cyngor cymuned yng Nghymru am flwyddyn. Caiff yr etholiadau eu cynnal yn 2004 a phob pedair blynedd wedyn. Mae tymor swydd y cynghorwyr presennol yn cael ei estyn felly â blwyddyn.